# POWELL, LEWIS (1788 - 1869), gweinidog gyda'r Annibynwyr



**Enw:** Lewis Powell
**Dyddiad geni:** 1788
**Dyddiad marw:** 1869
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd yn Defynnog, sir Frycheiniog, 27 Rhagfyr 1788. Addysgwyd ef i ddechrau mewn ysgol a gedwid gan weddw a'i merch yn y pentref ac wedi hynny yn ysgol yr Eglwys, lle y gorfu iddo oddef gwaradwydd y ' Welsh Note ' am siarad Cymraeg. Yn hytrach na dilyn crefft ei dad fel gwehydd aeth at ewythr i ddysgu gwaith crydd. Yn y Brychgoed yn 1807 y derbyniwyd ef yn aelod gan Peter Jenkins, cyfaill personol i Williams, Pantycelyn, ac ef hefyd a'i hanogodd i ddechrau pregethu yn 1808. Yn 1812 cafodd le yn athro ar blant un Evan Price, Cerrigbwbach, ger Pentretygwyn, yn ogystal ag ar blant y gymdogaeth, ar yr amod fod y g r hwnnw yn ei gynnal a dysgu Lladin a Groeg iddo. Blwyddyn a fu wrth y gwaith hwn; cafodd drwydded i bregethu 16 Tachwedd 1812. Ym Mai 1813 urddwyd ef yn weinidog eglwys Capel Isaac, Sir Gaerfyrddin. Yn 1827 cytunodd i gymryd gofal eglwys Annibynnol yng Nghaerdydd a sefydlasid y flwyddyn flaenorol ac a ddaeth i'w hadnabod fel Ebeneser. Nid oedd yno gapel iddo ond ymhen y flwyddyn agorwyd capel newydd gan yr eglwys. Bu yno hyd 1850 pryd yr ymddeolodd oherwydd llesgedd; bu farw 16 Medi 1869 a chladdwyd ef gerllaw capel Ebeneser.

G r gwreiddiol ac od, llawn arabedd a ffraethineb parod, ydoedd. Daeth yn enwog fel casglwr arian at ddiddyledu ei gapel ei hun a chapeli eraill, a theithiai draws y wlad wrth y gwaith; ymwelodd â Llundain a rhannau o Loegr a niferus y straeon a adroddir amdano ar y teithiau hyn. Er nad oedd yn bregethwr mawr cyrchai pobl i'w wrando ar gyfrif hynodrwydd ei ddull a'i ymadroddion. Cyhoeddodd lyfryn o farddoniaeth, *Llwyddiant i'r Ceinciau*, a llu o farwnadau; sathredig i raddau oedd ei iaith a'i arddull. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o hunangofiant, *Hanes Bywyd... Lewis Powell, Caerdydd, 1853-1869, ganddo ef ei hun*, 1860.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 424-6

H. M. Hughes, *Hanes Ebenezer, Caerdydd, 1826 - 1926 cyhoeddwyd ar ddathliad y canmlwyddiant* (Caerdydd 1926), 29-41

*Y Tadau Anibynnol* (Caernarfon 1898–1900), llyfr iii

Bowen-Jones, *Y Parch. Lewis Powell, Caerdydd* (Bangor 1897)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746824

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu